


Briff Ymchwil

# Y Gyfres Cynllunio: 8 - Offer telathrebu

Awdur: **Katy Orford**

Dyddiad: **Ionawr 2017**

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru, i gytuno ar drethi yng Nghymru, ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Awdur: **Katy Orford**
Dyddiad: **Ionawr 2017**
Rhif Papur: **17-001**
Clawr blaen: **Llun Flickr gan David Jones. Trwydded Creative Commons.**

## Cysylltwch â ni

**Y Gwasanaeth Ymchwil**
**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
**Tŷ Hywel**
**Bae Caerdydd**
**Caerdydd**
**CF99 1NA**

**: 0300 200 7174**
**: Katy.Orford@Cynulliad.Cymru**
**: Cynulliad.Cymru/Pigion**
**: @SeneddYmchwil**
**: Cynulliad.Cymru/Ymchwil**

**© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2017**
Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difrïol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Briff Ymchwil

# Y Gyfres Cynllunio:
# 8 - Offer telathrebu

Trosolwg o'r papur: Mae'r hysbysiad hwylus hwn yn cynnig trosolwg o'r broses gynllunio ar gyfer offer telathrebu. Mae'n nodi pa fath o ddatblygiadau sy'n cael eu rhoi yn y categorïau canlynol: datblygiadau a ganiateir; datblygiadau a ganiateir gyda chymeradwyaeth o flaen llaw; a datblygiadau y mae angen caniatâd cynllunio arnynt. Mae hefyd yn ymdrin â'r modd yr eir i'r afael â risgiau iechyd posibl a ddaw yn sgil y datblygiadau hyn, Cod Arfer Gorau i weithredwyr ffonau symudol ynghyd â newidiadau diweddar i'r broses gynllunio.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**
Y Gwasanaeth Ymchwil

# Cynnwys


1. Beth yw offer telathrebu? ..... 1
2. Sut y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu rheoli? ..... 1
3. Pa fath o offer sy'n ddatblygiadau a ganiateir? ..... 1
4. Beth yw cymeradwyaeth o flaen llaw? ..... 2
5. Pryd mae angen caniatâd cynllunio? ..... 2
6. Sut yr asesir y risgiau iechyd sy’n gysylltiedig â datblygiadau o’r fath? ..... 2
7. Beth yw’r Cod Arferion Gorau i weithredwyr ffonau symudol? ..... 3
8. Beth yw'r newidiadau diweddar a wnaed i weithdrefnau cynllunio telathrebu? ..... 3
9. Ffynonellau allweddol ..... 4

# 1. Beth yw offer telathrebu?

Mae offer telathrebu'n cynnwys offer radio a thechnoleg ddigidol fel mastiau ffonau symudol, antenau radio ac offer cysylltiedig.

# 2. Sut y caiff y mathau hyn o ddatblygiadau eu rheoli?

Caiff canllawiau ar bolisi cynllunio cenedlaethol Llywodraeth Cymru ynghylch offer telathrebu eu nodi yn **Nodyn Cyngor Technegol 19: Telathrebu (TAN 19)**.

Yn ôl **Polisi Cynllunio Cymru**, dylai cynlluniau datblygu nodi'r polisïau a'r cynigion ar gyfer lleoliad datblygiadau telathrebu, gan ddyrannu safleoedd ar gyfer datblygiadau mawr a chynnwys polisïau sy'n seiliedig ar feini prawf i arwain datblygiadau telathrebu lle y gallai safleoedd ac eithrio'r rhai a nodir yn y cynllun gael eu cynnig.

Ni chaiff rhai gweithredoedd bach eu hystyried yn ddatblygiadau o gwbl, felly nid oes angen unrhyw fath o gymeradwyaeth arnynt. Mae hyn yn cynnwys gosod lloerennau ac erialau teledu bach ar eiddo domestig.

Caiff datblygiadau telathrebu eraill eu rhannu'n un o dri chategori:

– datblygiadau a ganiateir;

– datblygiadau a ganiateir gyda chymeradwyaeth o flaen llaw; a

– datblygiadau y mae angen gwneud cais am ganiatâd cynllunio ar eu cyfer.

# 3. Pa fath o offer sy'n ddatblygiadau a ganiateir?

Diffinnir rhai mathau o ddatblygiadau mewn cyfraith cynllunio fel datblygiadau 'a ganiateir', felly caiff caniatâd datblygu ei roi iddynt heb fod angen cais cynllunio.

Caiff datblygiadau telathrebu a ddiffinnir fel rhai 'a ganiateir' eu nodi yn rhan 24 'Datblygiadau gan Weithredwyr Codau Cyfathrebu Electronig' yng *Ngorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Cymru) 1995* fel y'i diwygiwyd ddiweddaraf gan *Orchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014*. Mae'r math o offer 'a ganiateir' yn cynnwys datblygiadau ar raddfa fach, er enghraifft gosod antenau ychwanegol ar fastiau radio sydd eisoes yn bodoli, neu ar orsafoedd a chabinetau offer sy'n llai na 2.5 metr ciwbig.

Fodd bynnag, ni ystyrir y rhain yn ddatblygiadau 'a ganiateir' mewn Parciau Cenedlaethol, Ardaloedd Cadwraeth, Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol na Safleoedd o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig. Yn yr ardaloedd hyn, byddai angen cymeradwyaeth o flaen llaw (gweler isod) ar ddatblygiadau bach hyd yn oed.

Mae'n bosibl bod ardaloedd eraill lle y gallai arfer yr hawl datblygu a ganiateir gael effaith ddifrifol. Gall Awdurdod Cynllunio Lleol roi 'Cyfarwyddyd Erthygl 4' i dynnu hawliau datblygu a ganiateir yn ôl mewn ardaloedd penodol, os yw'n ystyried bod hynny'n angenrheidiol. Rhaid i gyfarwyddyd o'r fath gael ei gymeradwyo gan Lywodraeth Cymru.

# 4. Beth yw cymeradwyaeth o flaen llaw?

Mae rhai datblygiadau telathrebu mwy yn ‘ddatblygiadau a ganiateir’, ond mae’r ddeddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol i’r gweithredydd wneud cais i’r Awdurdod Cynllunio Lleol i weld a oes angen ‘cymeradwyaeth o flaen llaw’ arnynt cyn dechrau ar y datblygiadau. Yna, mae gan yr Awdurdod 56 diwrnod i hysbysu’r gweithredydd o’i benderfyniad neu, fel arall, gall y datblygiad fynd yn ei flaen. Mae hyn yn wahanol i gais cynllunio llawn, oherwydd nid yw’n cynnwys yr un gweithdrefnau ymgynghori ffurfiol a gellir dechrau ar y gwaith datblygu yn syth ar ddiwedd y 56 diwrnod, oni bai fod yr awdurdod yn penderfynu’n wahanol. Ni ellir ymestyn ar y cyfnod o 56 diwrnod. Pan fydd awdurdod yn ystyried y gellir cyfiawnhau gwrthod rhoi cymeradwyaeth, dylai drafod yn gyntaf gyda’r gweithredydd y posibilrwydd o newid lleoliad a/neu ymddangosiad y datblygiad arfaethedig.

Yn fras, y math o ddatblygiadau yn y rhestr a ganlyn sy’n amodol ar gael cymeradwyaeth o flaen llaw:

– mastiau sydd wedi'u plannu yn y ddaear, neu fastiau i'w gosod ar adeilad neu strwythur hyd at 15 metr mewn taldra (gellir ymestyn ar daldra mastiau sydd eisoes yn bodoli hyd at 20 metr, a gellir cynyddu eu lled hyd at draean);

– antenau sydd eisoes ar adeiladau sy'n fwy na'r adeilad o dros 6 metr;

– blychau ffôn cyhoeddus;

– unedau cartrefu offer radio â chyfaint o dros 2.5 metr ciwbig

– datblygiadau bach penodol ar dir parciau cenedlaethol, ardaloedd cadwraeth ac ati.

# 5. Pryd mae angen caniatâd cynllunio?

Mae angen caniatâd cynllunio ar bob math arall o ddatblygiadau telathrebu sydd y tu allan i feini prawf datblygiadau a ganiateir, fel y’i hamlinellir yn y ddeddf, cyn y gellir bwrw ymlaen â hwy. Os oes angen caniatâd cynllunio ar ddatblygiad, yna bydd yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn ystyried hyn yn yr un ffordd ag unrhyw gais arall. Os bydd y datblygiad yn effeithio ar Adeilad Rhestredig, yna bydd angen gwneud cais am Ganiatâd Adeilad Rhestredig.

# 6. Sut yr asesir y risgiau iechyd sy’n gysylltiedig â datblygiadau o’r fath?

Os yw datblygiad yn ymwneud â chodi un neu fwy o fastiau, mae’r ddeddfwriaeth yng Nghymru yn ei gwneud yn ofynnol i’r gweithredydd gyflwyno datganiad sy’n dangos ei fod yn cydymffurfio â chanllawiau’r ICNIRP (sefydliad annibynnol sy'n cynnig cyngor gwyddonol ar belydredd nad yw'n ïoneiddio a'i effaith ar iechyd a'r amgylchedd) ynghylch amlygiad y cyhoedd i ymbelydredd, naill ai fel rhan o’r broses gymeradwyaeth o flaen llaw neu’r broses o wneud cais am ganiatâd cynllunio. Y rhain yw’r canllawiau y cytunwyd arnynt fel y safon Ewropeaidd ar amlygiad y cyhoedd i feysydd electromagnetig.

Mae dyletswyddau ar weithredwyr o dan ddeddfwriaeth iechyd a diogelwch hefyd. Dylent asesu unrhyw risgiau iechyd a diogelwch a all godi, gan gynnwys lefelau allyriadau tebygol y gall pobl ddod i gysylltiad â hwy, a chymryd unrhyw fesurau priodol i rwystro’r cyhoedd rhag cael mynediad at y datblygiadau. Nid oes gofyniad ar Awdurdodau Cynllunio Lleol i orfodi rheoliadau drwy’r system gynllunio, sydd eisoes yn berthnasol o dan y gyfundrefn iechyd a diogelwch.

# 7. Beth yw’r Cod Arferion Gorau i weithredwyr ffonau symudol?

Er mwyn ein cynorthwyo i ddehongli’r ddeddfwriaeth ac i ychwanegu at y cyngor a gafwyd yn TAN 19, yn 2002 cyhoeddodd Llywodraeth Cymru, ar y cyd â **Chymdeithas y Gweithredwyr Ffonau Symudol , ’God Arferion Gorau ar Ddatblygu'r Rhwydwaith Ffonau Symudol**. Amcan y Cod yw gwella deialog ac ymgynghori â chymunedau lleol. Mae’r Cod yn cynnwys deg o ymrwymiadau’r diwydiant, a disgrifiad o’r model ymgynghori ‘goleuadau traffig’; sy’n graddio safleoedd yn ôl risg uchel (coch), risg canolig (melyn) a risg isel (gwyrdd), yn ôl lefel y diddordeb yn y gymuned. Un o’r deg ymrwymiad yw y dylai'r un faint o wybodaeth gael ei chyflwyno gyda chais am gymeradwyaeth o flaen llaw ag sy’n cael ei chyflwyno gyda chais cynllunio llawn.

Cynhaliwyd gwaith ymchwil yn 2005 i effeithiolrwydd y Cod. Un o argymhellion y gwaith ymchwil oedd y dylid diweddaru’r Cod i adlewyrchu’r newidiadau yn y ddeddfwriaeth yng Nghymru. Yn 2006, argymhellodd Pwyllgor Amgylchedd Cynllunio a Chefn Gwlad yr ail Gynulliad y dylid diweddaru'r Cod. Derbyniodd y Gweinidog yr awgrym hwn ar y pryd, ond nid yw’r Cod wedi’i ddiweddaru hyd yma.

# 8. Beth yw'r newidiadau diweddar a wnaed i weithdrefnau cynllunio telathrebu?

Yn 2013, lansiodd Llywodraeth Cymru ymgynghoriad **hawliau datblygu a ganiateir ychwanegol arfaethedig ar gyfer Gweithredwyr Codau Cyfathrebu Electronig (hwyluso cyflwyno band eang)** er mwyn cael adborth ar newidiadau arfaethedig i'r hawliau datblygu a ganiateir. Nod yr ymgynghoriad oedd nodi pa seilwaith sydd ei angen yng Nghymru i sicrhau bod adeiladau'n cael mynediad at fand eang y genhedlaeth nesaf. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyno band eang i ffonau symudol.

Yn dilyn yr ymgynghoriad, daeth ***Gorchymyn Cynllunio Gwlad a Thref (Datblygu Cyffredinol a Ganiateir) (Diwygio) (Cymru) (Rhif 2) 2014*** i rym. Nod y diwygiadau hyn oedd llacio gweithdrefnau i hwyluso datblygu offer telathrebu, er enghraifft:

- gwnaed darpariaeth ar gyfer mastiau sydd eisoes yn bodoli (heblaw am y rheini mewn Parciau Cenedlaethol ac Ardaloedd o Harddwch Naturiol Eithriadol) i gael eu cynyddu mewn taldra o hyd at 15 metr nes cyrraedd hyd at 20 metr, gan gynyddu eu lled hyd at draean (yn amodol ar fodloni'r gofyniad o gyflwyno cais am gymeradwyaeth o flaen llaw);
- newidwyd y trothwy fel y mae ar hyn o bryd am gymeradwyaeth o flaen llaw ar gyfer antenau ar adeiladau neu strwythurau o 4 metr i 6 metr; a
- diddymwyd y gofyniad bod rhaid gwneud cais am gymeradwyaeth o flaen llaw ar gyfer datblygiadau sy'n ategol at unedau cartrefu offer radio.

# 9. Ffynonellau allweddol

## Llywodraeth Cymru

Mae **adran gynllunio** gwefan Llywodraeth Cymru yn cynnwys y wybodaeth a ganlyn:

**TAN 19: Telathrebu**.

## Cymorth Cynllunio Cymru

Sefydliad elusennol yw **Cymorth Cynllunio Cymru** sy'n helpu unigolion a chymunedau cymwys i gymryd rhan fwy effeithiol yn y system gynllunio. Mae'n cynnig gwasanaethau cynghori, gan gynnwys llinell gymorth.

## Porth cynllunio

Y **porth cynllunio** yw adnodd rheoliadau cynllunio ac adeiladu Llywodraeth y DU. Mae'n cynnwys gwybodaeth am y system gynllunio yng Nghymru, er bod peth o'r cynnwys yn berthnasol i Loegr yn unig.

## Y Gwasanaeth Ymchwil

Mae papurau briffio eraill a luniwyd gan y Gwasanaeth Ymchwil ynghylch cynllunio ar gael ar ein gwefan: **Y Gwasanaeth Ymchwil**